CYFARFOD

# Ystadegau tai a diweddariad ar ymchwil, Mai 2022

Manylion ar ddatblygiadau prosiectau ac adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Mai 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Mai 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Ymchwil tai

Ystadegau tai

# Ymchwil tai

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar y gweill:

Disgwylir i waith ymchwil i archwilio'r gweithlu adeiladu amlfeddiannaeth ddechrau'n fuan. Bydd hyn yn cefnogi adolygiad cynhwysfawr o'r system diogelwch adeiladau presennol, er mwyn llywio diwygiadau i'r ffordd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu harchwilio a'u rheoleiddio.

Mae gwerthusiad o ymyriadau digartrefedd yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd yn mynd rhagddo Bydd yr ymchwil hwn yn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar draws atal ac ymyrryd ar ddigartrefedd.

Bydd adolygiad tystiolaeth o lenyddiaeth ar orlenwi ar gyfer cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Ei nod yw asesu tystiolaeth ar sut y gallai gorlenwi effeithio ar aelwydydd.

Mae'r holl adroddiadau ymchwil tai i'w gweld ar wefan **ystadegau ac ymchwil**.

# Ystadegau tai

Wrth i'r galw am ystadegau a data i fesur effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19) gynyddu, bu'n rhaid i ni newid ein harferion casglu a rhyddhau data,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gan ganolbwyntio ymdrechion ar ddadansoddi ac ystadegau sy’n flaenoriaeth.

Eglurodd ein **datganiad** hyn ymhellach ac, yn unol â **chanllawiau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau**, gwnaed penderfyniadau i ganslo neu ohirio rhai cyhoeddiadau.

Yn ystod 2021-22, gwnaethom ailddechrau cyhoeddi allbynnau ystadegol allweddol.

## Datganiadau ystadegol diweddar

**Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (14 Hydref 2021)

**Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhent: ar 31 Mawrth 2021** (26 Hydref 2021)

**Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir): Gorffennaf i Fedi 2021** (26 Tachwedd 2021)

**Adeiladu tai newydd: Ebrill 2019 i Fawrth 2021** (14 Rhagfyr 2021)

**Digartrefedd: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (16 Rhagfyr 2021)

**Digartrefedd: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (21 Rhagfyr 2021)

**Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir): Hydref i Ragfyr 2021** (22 Chwefror 2022)

**Tai a gafodd eu dymchwel: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (8 Mawrth 2022)

**Peryglon mewn tai a thrwyddedau: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (8 Mawrth 2022)

**Cymorth ar gyfer gwelliannau tai: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (22 Mawrth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2022)

**Llefydd gwag, gosodiadau ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** (31 Mawrth 2022)

## Gwybodaeth reoli fisol am ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu ar y stryd

Rydym wedi parhau i gyhoeddi **gwybodaeth reoli fisol** am gysgu ar y stryd a darparu llety i'r digartref.

Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi cael yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swyddogol.

Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar wefan **ystadegau ac ymchwil**.

Rydym yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad unrhyw un o'r ystadegau a'r wybodaeth reoli hon i **ystadegau.tai@llyw.cymru** .

## Rhaglen Dystiolaeth Amodau Tai

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Polisi Tlodi Tanwydd i ddarparu cymorth dadansoddol i fonitro'r cynllun ar gyfer **trechu tlodi tanwydd rhwng 2021 a 2035**, gan gynnwys datblygu dangosfwrdd o'r holl ddata tlodi tanwydd perthnasol y gobeithiwn allu ei gyhoeddi yr haf hwn. Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi **Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2021**.  Oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg, ni ellir cymharu amcangyfrifon modelu 2021 o dlodi tanwydd yn uniongyrchol â ffigurau blaenorol. Bydd dadansoddiad manwl yn cael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf a bydd adroddiad methodoleg manwl yn cyd-fynd ag ef.

Rydym yn parhau i weithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i ddarparu cymorth dadansoddol wrth ddatblygu'r Safon ar ôl 2020, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y Safon arfaethedig. Yn yr un modd, rydym yn gweithio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyda'r Tîm Modelau Arloesol a Datgarboneiddio Tai ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen weithredu i ddatgarboneiddio holl gartrefi Cymru erbyn 2050.

## Adnodd Dadansoddi Stoc Tai i Gymru (HSAR)

Rydym yn parhau i weithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth, Asiantaethau ac ONS ynghylch rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, megis gwybodaeth am y Dreth Gyngor. Rydym yn parhau i archwilio mynediad at ffynonellau data eraill o dan y Ddeddf Economi Ddigidol megis data defnydd ynni BEIS.

Os oes gan unrhyw un unrhyw awgrymiadau ar gyfer darnau dadansoddi y gallem edrych arnynt, neu os oes ganddynt ddiddordeb mewn cael mynediad at ddata ar gyfer eu prosiectau eu hunain, cysylltwch â ni.

## Cyfarfod nesaf y Grŵp Gwybodaeth am Dai

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy Microsoft Teams ar 28 Medi 2022. Bydd agenda a gwahoddiad cyfarfod yn dilyn yn nes at y dyddiad.

## Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr uchod, neu os hoffech gael cyngor ystadegol ar ddefnyddio data tai (gan gynnwys, er enghraifft, yn absenoldeb data), cysylltwch â:

**ystadegau.tai@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Ystadegau tai a diweddariad ar ymchwil, Mai 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-tai-diweddariad-ar-ymchwil-mai-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.